# Taflen Graddio Gwenwyndra Clinigau Asesu dros y Ffôn V1.1

Canolfan Ganser Felindre
Velindre Cancer Centre

## Taflen Asesu Gwenwyndra

Dylech raddio eich gwenwyndra yn defnyddio'r daflen hon, fel y gallwn asesu sut y gwnaethoch oddef eich triniaeth ddiwethaf, ac a oes angen i ni wneud unrhyw addasiadau i'ch presgripsiwn triniaeth nesaf.

| Gwenwyndra | Gradd 0 | Gradd 1 Ysgafn | Gradd 2 Cymedrol | Gradd 3 neu fwy Difrifol |
|---|---|---|---|---|
| Cyfog (teimlo’n sâl) | Dim problemau | Teimlo’n sâl ond yn gallu bwyta bron fel normal | Dim yn gallu bwyta’r swm normal, ond heb golli llawer o bwysau | Bwyta ac yfed bron dim. Yn gallu sylwi bod rhywun wedi colli pwysau |
| Chwydu | Dim problemau | 1 achos mewn 24 awr | 2-5 achos mewn 24 awr | 6 neu fwy achos mewn 24 awr neu angen ailhydradu parenterol |
| Dolur rhydd | Dim problemau | Mwy na 3 achos o ddolur rhydd bob diwrnod, yn fwy na’r normal (neu gynnydd ysgafn mewn allbwn ostomi) | Mwy na 4-6 achos o ddolur rhydd y diwrnod yn fwy na’r normal (neu gynnydd cymedrol mewn allbwn ostomi) | Mwy na 7 achos o ddolur rhydd y diwrnod yn fwy na’r normal, sy’n eich gwneud chi i deimlo’n sâl (neu gynnydd difrifol mewn allbwn ostomi) |
| Rhwymedd | Dim problemau | Ysgafn - defnydd achlysurol o foddion gweithio a/neu newid diet | Cymedrol - heb fynd i’r toiled am 2-3 diwrnod dros yr hyn sy'n normal i chi | Difrifol - Achosi anghysurdeb. Heb fynd i’r toiled am 3-4 diwrnod dros yr hyn sy'n normal i chi. |
| Dolur yn y geg | Dim problemau | Anghysurdeb ysgafn. Gallu bwyta ac yfed | Ceg boenus, yn cyfyngu ar y gallu i fwyta ac yfed llawer am fwy na diwrnod | Ceg boenus. Dim yn bwyta nac yn yfed llawer o ganlyniad. |
| Brech ar yr wyneb neu’r corff neu clwy’r traed ar genau | Dim problemau | Ysgafn. Brech neu gochni, dipyn o gosi efallai | Croen yn goslyd iawn, a/neu mae gennych bothelli sy’n pilio neu’n cracio | Llawer o bothelli’n pilio, poen difrifol |
| Newid teimlad yn y dwylo/traed (Niwropathi Ymylol) | Dim problemau | Pinnau bach ysgafn yn y bysedd, bysedd traed, sodlau traed yn para dim ond ychydig ddyddiau | Pinnau bach neu golli teimlad yn eich bysedd, bysedd traed neu wadnau’ch traed sy'n para am ychydig ddyddiau, i hyd at 10 diwrnod. Yn baglu neu'n gollwng pethau. Os yw hyn wedi digwydd mewn cylchoedd triniaeth blaenorol - ydy hyn yn mynd yn waeth? | Pinnau bach neu golli teimlad yn eich bysedd, bysedd traed neu wadnau’ch traed, sydd yno drwy’r amser |
| Blinder (wedi blino’n lân) | Dim problemau | Blinder ysgafn – ond yn dal i allu cyflawni’r rhan fwyaf o’r gweithgareddau normal gyda seibiant rhyngddynt | Blinder cymedrol sy’n para llai nag wythnos, sy’n lleihau’r gallu i gyflawni llawer o weithgareddau | Blinder difrifol – methu cyflawni’r rhan fwyaf o weithgareddau normal |

Unrhyw sylwadau?